FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION

Pedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain y Fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Gyfarfod Plas Erddig, Wrecsam, ar Ddydd Iau, 6 Awst 2009 am 1.30pm

22/09 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

SWYDDOG LLYWYDDU AC YSGRIFENNYDD
Carla McCusker

CADEIRYDD
Mabyn Pickering

AELODAU
John Cooper-Poole
Martin Howarth
Edward Wardle
Gerald Moss
Tim Stratton
Janet Williams
Mary Roberts
Guy Springett

ERAILL
Sean Hanratty (CBSW)
Alan Price (CCGC)

Ymddiheuriadau: Natalie Edwards, Gwynfor Jones, John Evans, George Kinder, Shelagh Roberts, Sue Gittins (Dirprwy Gadeirydd)

23/09 Cyflwyniad gan Steve Griffiths, Rheolwr Cefn Gwlad, Stad Erddig

Methodd Steve Griffiths fynychu'r cyfarfod ond bydd yn cael ei wahodd ar achlysur arall.

24/09 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2009

Arolwg Llwybrau Troed Erbistog
A orffennwyd erbyn hyn diolch i Honor Mostyn.

Mapiau Digidol i'r Aelodau
Dywedodd Martin Howarth wrth y grŵp y bydd yn costio cyfanswm o ryw £500 (£30-£40 yr un) i roi map diffiniol i aelodau WLAF. Awgrymwyd bod aelodau'n lawrlwytho copi fydd ar gael ar-lein yn yr Hydref. Bydd y map diffiniol yn cynnwys rhifau llwybrau troed a bydd modd closio ato i raddfa 1:10,000.

GWEITHREDU: Aelodau i gysylltu â'r Ysgrifennydd os ydynt yn cael anhawster cael gafael ar y map ar-lein.

Cynefino Aelodau Newydd
Bu trafodaeth ynghylch hyfforddiant / cynefino ar gyfer aelodau newydd LAF a rhai'n dychwelyd.

Holodd Mary Roberts ynghylch cylch gwaith LAF a gofynnodd am esboniad y Cadeirydd o ddiben y Fforwm a syniadau ar hyfforddiant. Cytunwyd bod rhaglen o sesiynau hyfforddi gyfnodol yn cael ei threfnu yn ystod y flwyddyn a ddaw. Awgrymodd aelodau syniadau ar hyfforddiant yn y cyfarfod, fel a ganlyn:

1. Hyfforddiant ar y map diffiniol (Sean Hanratty);
2. Ceidwaid Mynediad – swyddogaethau a chylch gwaith (Siôn Roberts);
3. Gwybodaeth am strwythurau / adrannau'r Cyngor sydd â rhyngwyneb gyda mynediad (Martin Howarth);
4. Gwybodaeth am sut y gall LAF gael gafael ar grwpiau anabl / ethnig lleiafrifol – awgrymwyd y dylid gwahodd Celia Gibson (Rheolwr Cydraddoldeb CBSW) i gyfarfod yn y dyfodol i roi trosolwg. (Celia Gibson).

GWEITHREDU: Y Cadeirydd i ystyried syniadau ar hyfforddiant / cynefino. Cytunwyd y bydd Celia Gibson yn cael ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol – yr Ysgrifennydd i gadw cyswllt â'r Cadeirydd.

25/09 Adroddiad y Cadeirydd
Diolchwyd i Emma Haldane am ei chefnogaeth ac ymdrechion rhagorol yn ystod ei blynyddoedd fel Ysgrifennydd y Fforwm. Dywedodd y Cadeirydd wrth y grŵp y penodwyd Carla McCusker yn ddiweddar fel yr Ysgrifennydd newydd. Roedd y Cadeirydd wedi bod yn bresennol ar y panel cyfweld.

26/09 Adroddiad yr Ysgrifennydd
Cyflwynodd Carla ei hun fel yr Ysgrifennydd newydd. Dywedodd Carla y trosglwyddwyd cyfrif e-bost LAF iddi hi.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i e-bostio manylion cysylltu i'r grŵp er gwybodaeth.

27/09 Prosiectau ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Roedd Sean Hanratty, Arweinydd Tîm Hawliau Tramwy, yn bresennol i drafod prosiectau cyfredol yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Cyfeiriwyd yn benodol at ddau lwybr ceffylau sydd ar hyn o bryd yn y cynllun. Darn byr yw'r cyntaf yn Nhrefalun sy'n dod i mewn o Sir Gaer ac yn agos at Meadow Farm. Bydd y prosiect hwn yn golygu gwella darn byr o'r llwybr troed.

Mae'r ail lwybr ceffylau yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog, lle mae dolen goll rhwng dau lwybr ceffylau. Eglurodd Sean y byddai'n hoffi cysylltu â'r gofrestrfa tir i gael gwybod pwy yw'r tirfeddianwyr. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr ar ran y Fforwm at y tirfeddianwyr, unwaith y byddant yn hysbys. Bydd y llythyr yn gwneud cais i sefydlu llwybr ceffylau cyhoeddus. Os yw hyn yn dderbyniol i'r tirfeddianwyr, bydd angen i'r Awdurdod Lleol lunio cytundeb diofryd i'r tirfeddianwyr ei lofnodi. Dywedodd Sean y dylai'r broses gymryd tua thair wythnos os yw'r tirfeddianwyr yn cydsynio. Os nad yw'r tirfeddianwyr yn dymuno diofryd, mae modd gwneud gorchymyn creu ac mae'n debygol y byddai'r tirfeddiannwr mae'n gwrthwynebu'r gorchymyn, gan arwain at ymchwiliad cyhoeddus.

Bydd cynnydd yn dal i gael eu gwneud yn Nhrefalun a Llanarmon tan fis Mawrth 2010 gan eu bod yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyfredol. Mae copïau o'r cynllun i'w cael oddi wrth Martin.

Dywedodd Martin y dylai fod £60,000 o gymorth ariannol ar gyfer Hawliau Tramwy ar gael am flwyddyn arall os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cadw at ei hymrwymiad tair blynedd. Mae angen clustnodi mwyafrif yr arian hwn at wella llwybrau troed am nad yw targedau presennol yn cael eu cyrraedd. Eglurodd Martin fod anawsterau gyda dangosyddion perfformiad ar hyd a lled Cymru. Mae Wrecsam yn llym mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill. Mae angen gwneud mwy o waith gyda llwybrau troed yn y flwyddyn a ddaw er mwyn gwella'r ystadegau.

Cyfeiriwyd at ardaloedd Dyffryn Moss a'r Mwynglawdd. Bydd Tim Stratton a Sean Hanratty'n cadw cyswllt yn hyn o beth. Cyfeiriwyd hefyd at Fynydd Esclus. Cytunodd Sean Hanratty ymchwilio i hyn a rhoi adroddiad eto i'r grŵp.

Dywedodd Tim Stratton wrth y grŵp y rhwystrwyd pen llwybr ceffylau rhif 13 o Lôn y Ficerdy yng Ngresffordd. Awgrymwyd y byddai Sean yn ymchwilio i hyn os nad oes digon o gynnydd ei wneud gyda Llanarmon a / neu Drefalun.

Mae rhai llwybrau troed yn anhygyrch oherwydd llystyfiant. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i docio planhigion, ond mae angen cyflogi contractwyr ar gyfer camfeydd ac arwyddbyst. Holodd Tim sut fyddai pobl yn mynd o gwmpas gwirfoddoli ar brosiectau.

GWEITHREDU: Martin i holi ynghylch proses wirfoddoli ar brosiectau.

GWEITHREDU: Sean i gadw cyswllt â'r Cadeirydd o ran canlyniad ymholiadau i berchenogaeth tir yn Nhrefalun a Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Y Cadeirydd lunio llythyr at y tirfeddianwyr ar ran LAF a'i e-bostio i'r grŵp i'w gytuno.

GWEITHREDU: Sean i ymchwilio i Fynydd Esclus a chadw cyswllt â Tim Stratton o ran ardaloedd Dyffryn Moss a'r Mwynglawdd.

28/09 Gwelliannau i'r Rhwydwaith Llwybrau Ceffylau

Trafodwyd dan eitem 27/09.

29/09 Adroddiad y Ceidwaid Mynediad

Cyflwynodd Martin Howarth adroddiad gan geidwaid Alison Whitley, Dave Smith a Siôn Roberts, mewn cysylltiad â gwaith ar y gweill yn y Sir ar hyn o bryd.

Adroddiad Alison:

Bu Alison yn gweithio gyda Groundwork yn cynnal arolwg o'r llwybrau yn ardal Cymuned Broughton a bu'n llunio rhestr arwyddbyst min ffordd ar gyfer Gwersyllt.

Bu Charlotte Flett (Prentis Modern) yn gweithio gyda gwirfoddolwr Mabwysiadu Llwybr Plas Bennion i wella rhwydwaith llwybrau yn ardal Plas Bennion. Codwyd camfeydd ac arwyddbyst newydd y llynedd ac, felly, ni hysbyswyd llawer o broblemau eleni. Bydd y rhai a nodwyd yn cael eu harchwilio a'r gwaith perthnasol yn cael ei archebu. Mae hefyd wedi cael ymateb ar lwybrau Marchwiail a bydd yn dechrau prosesu'r wybodaeth pan fydd wedi derbyn mapiau'r arolwg.

Yn ogystal â gwaith gwirfoddol, bu Charlotte yn cynorthwyo tîm y Map Diffiniol trwy gynhyrchu mapiau ar gyfer y Gofrestr Geisiadau fydd yn cael ei osod ar y wefan unwaith y bydd yn gyflawn.

Mae Cofrestr Bontydd yn cael ei chreu hefyd i hwyluso cynnal pontydd mwy yn well ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar hyd a lled y sir gyda chymorth y tîm Rheoli Pontydd. Bu Charlotte yn defnyddio cronfa ddata'r tîm i greu rhestr o Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd â phontydd, ac argraffu mapiau i ddangos eu lleoliad. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio wedyn i archwilio'r pontydd a phenderfynu pwy fyddai orau i'w cynnal.

Adroddiad Dave:

Mae Dave yn dal ymlaen gyda llawer o faterion cynnal a chadw ar lwybrau a hyrwyddwyd fel yr hysbysodd y tîm gwirfoddolwyr, ac mae eisoes wedi dechrau rhoi gwaith i gontractwyr ar ôl ymwelwyd â thirfeddianwyr.

Mae wedi newid cyfarwyddiadau taith gerdded Mwyngloddiau, Rhostir a Mynydd i ystyried newid ymyl y goedwig a hefyd i osgoi'r man paru.

Llwyddodd i gael bron i £5000 o arian ychwanegol ar gyfer Llwybr Clawdd Offa a dechreuodd gwaith eisoes. Yn olaf, mae'n falch o ddweud bod Cyngor Sir Swydd Amwythig wedi gosod pont droed newydd yn ddiweddar dros Nant y Cregyn.

Adroddiad Siôn:

Bu Siôn yn gweithio ar waith Cynllun Gwella Hawliau Tramwy eleni ynghyd â delio â chwynion cyffredinol. Gorffennwyd rhywfaint o'r gwaith ROWIP eisoes gan gynnwys pompren newydd ger Fferm Caia yn Rhosllannerchrugog.

Ar ôl cysylltu â'r tirfeddiannwr ym Mronington, gwnaed gwaith i wella llwybrau troed prysur rhif 36 ger yr Eglwys. Erbyn hyn mae'r tirfeddiannwr wedi datgloi adwy'r cae gan ganiatáu mynediad rhwyddach i ddefnyddwyr. Gosodwyd camfeydd newydd hefyd ar lwybrau cysylltiedig.

Bydd Siôn yn arwain taith gerdded o Lanarmon Dyffryn Ceiriog ar ddiwedd Awst. Bydd manylion ohoni ar wefan y Cyngor neu yn llyfryn y Parciau Cefn Gwlad / Hawliau Tramwy.

30/09 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhoddodd Alun Price newyddion diweddaraf CCGC i'r grŵp. Ni fu unrhyw geisiadau ffurfiol i gyfyngu ar fynediad i dir agored yn ardal Wrecsam. Mae CCGC yn bwriadu adolygu mapiau yn 2011-2012 ac mae'n aros am arweiniad y Cynulliad yn hyn o beth.

31/09 Unrhyw Fater Arall

Drafft Adroddiad Blynyddol 2008/09

Diolchwyd i John Cooper-Poole am ei gymorth gyda'r Adroddiad Blynyddol.

Awgrymwyd, pan fydd aelodau newydd yn cael eu penodi i LAF, y dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys eu henwau. Cytunodd y grŵp y dylid newid yr adroddiad ar gyfer 2008-2009 i gynnwys y manylion hyn ac i adlewyrchu newidiadau diweddar yn aelodaeth WLAF. Bydd y protocol hwn yn cael ei fabwysiadu yn Adroddiadau Blynyddol y dyfodol.

Bydd y gair 'Forward' yn cael ei newid i 'Foreword' yn enw adran agoriadol y fersiwn Saesneg.

Cytunwyd mai dyma'r adroddiad terfynol, gyda'r newidiadau uchod.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i drefnu cyfieithiad unwaith y gwnaed y newidiadau a'i osod ar y Rhyngrwyd.

Materion Trawsffiniol

Holodd Tim Stratton ynghylch sefyllfa trefnu cyfarfod gydag awdurdodau eraill i drafod materion trawsffiniol. Ni threfnwyd dyddiad cyfarfod eto, er y cysylltwyd â Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Sir Gaer yn gynharach yn y flwyddyn. Cytunwyd y dylid cysylltu eto â Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn y lle cyntaf.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gysylltu â Sir Ddinbych a Sir y Fflint gyda golwg ar drefnu cyfarfod. Yr Ysgrifennydd i hysbysu cynnydd i Tim a Sue.

Statws Treftadaeth y Byd – Pont Ddŵr Pontcysyllte, Llangollen

Dywedodd y Cadeirydd y dyfarnwyd Statws Treftadaeth y Byd i Bont Ddŵr Pontcysyllte yn Llangollen, er na ddaw dim arian ychwanegol o ganlyniad.

Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr llwybrau troed yn y cylch, gan ei bod yn debygol y bydd mewnlifiad o ymwelwyr. Mae amryw lwybrau troed angen sylw, yn enwedig yn ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy a Cheiriog.

Llwybrau Ceffylau Goddefol

Gofynnodd Tim Stratton sut mae llwybrau ceffylau goddefol a chyhoeddus yn ymddangos ar fap yr OS a sut gaiff newidiadau eu gwneud i fapiau. Dywedodd Sean nad yw'r awdurdod yn anfon gwybodaeth am nad oes dim yn ysgrifenedig yn y Cyngor. Awgrymwyd y gall fod gwybodaeth yn Adran Gynllunio'r awdurdod.

GWEITHREDU: Sean i archwilio o ble y daw gwybodaeth / gwaith papur o ran yr ymholiad uchod.

Llwybr Legacy
Erbyn hyn penderfynwyd bod un darn o hen reilffordd Legacy mewn dwylo preifat, sef dau o bobl yn Nhan-y-fron a'r adran arall yn nwylo National Grid. Mae'r broses i benderfynu pwy yw perchenogion y tir wedi cymryd dros flwyddyn, oherwydd gwybodaeth gamarweiniol yn yr ymholiad dechreuol. Dywedodd y Cadeirydd y dylid bod wedi cysylltu â'r gofrestrfa tir o'r dechrau i ganfod perchenogaeth y tir. Nodwyd bod yr awdurdod wedi gwerthu rhywfaint o'r tir tua blwyddyn cyn sefydlu WLAF (tua 2000-2001).

Cytunodd y grŵp y dylai WLAF gysylltu â National Grid a'r tirfeddianwyr preifat yn Nhan-y-fron i geisio diofryd fel llwybr ceffylau. Cytunwyd y bydd angen i'r llythyr esbonio i'r tirfeddianwyr beth yw LAF ac egluro diben y cais, hynny yw, gwella hawliau tramwy a mynediad y cyhoedd. Mae'n debygol y bydd angen edrych eilwaith ar ddatganiadau tystion, os nad yw'r tirfeddianwyr yn cytuno i ddiofryd y tir dan sylw.

GWEITHREDU: Y Cadeirydd i ddrafftio llythyr i dirfeddianwyr ar ran WLAF a'i anfon at Sean Hanratty. Bydd y llythyr yn gofyn am ateb i'r Cadeirydd.

GWEITHREDU: Hysbysu'r Cyngor Cymuned.

GWEITHREDU: Y Cadeirydd i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Treialon Marchogaeth
Dywedodd Janet Williams bod y treialon marchogaeth diweddar yn llwyddiannus iawn gyda 93 yn cynnig. Ni chafwyd unrhyw anhawster o ran llwybrau troed.

32/09 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- Ceidwaid Mynediad
- Materion Trawsffiniol

33/09 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Neuadd y Dref – Ystafell Bwyllgora 1
Dydd Gwener 23ain Hydref 2009
1.30pm